

# Mae'r Cod i Ddiodefwyr yn gosod y safon ofynnol o wasanaeth i ddiodefwyr troseddau

## Beth yw'r Cod i Ddiodefwyr?

Mae'r Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau<sup>1</sup>(y Cod i Ddiodefwyr) yn nodi'r gwasanaethau a'r safon ofynnol ar gyfer y gwasanaethau hyn y mae'n rhaid ei darparu i ddiodefwyr troseddau gan sefydliadau (y cyfeirir atynt fel **darparwyr gwasanaethau**) yng Nghymru a Lloegr.

## Pwy sy'n ddiodefwyr dan y Cod hwn?

At ddibenion y Cod hwn, "diodefwyr" yw:

- person<sup>2</sup>sydd wedi diodefwyr niwed, gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd<sup>3</sup>;
- perthynas agos<sup>4</sup> (neu lefarydd teulu enwebedig) y person yr achoswyd ei farwolaeth yn uniongyrchol gan drosedd.

## Beth sydd angen i chi ei wneud fel diodefwyr trosedd?

I helpu **darparwyr gwasanaethau** gyflenwi eich **Hawliau** dan y Cod hwn, dylech:

- ofyn cwestiynau i'r **darparwyr gwasanaethau** os ydych yn ansicr am unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'ch achos neu'r broses cyfiawnder troseddol;
- roi gwybod i'r **darparwr gwasanaeth** perthnasol os yw eich dewisiadau cyswllt neu eich manylion yn newid; a
- darparu adborth i helpu **darparwyr gwasanaethau** ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ddiodefwyr ar bob cam o'r broses cyfiawnder troseddol.

## Pwy arall all dderbyn hawliau dan y Cod hwn?

- rhiant neu warcheidwad y diodefwyr os yw o dan 18 oed<sup>5</sup>. Rhaid i bob **darparwr gwasanaeth** fod â lles y diodefwyr fel eu prif ystyriaeth, ac ystyried yn llawn oedran, aeddfedrwydd, barn, anghenion a phryderon y diodefwyr<sup>6</sup>;
- llefarydd teulu enwebedig os yw'r diodefwyr yn anabl neu wedi cael ei anafu mor ddrwg oherwydd
- trosedd na allant ei chyfleu.

Mae gennych hawl i wasanaethau o dan y Cod hwn waeth beth fo'ch statws preswyl. Fodd bynnag, os cyflawnwyd y drosedd yng Nghymru neu Loegr, ond eich bod yn byw yn rhywle arall, dylech gael mynediad at wasanaethau cymorth i ddiodefwyr lle rydych yn byw.

Dylai teuluoedd sydd wedi diodefwyr profedigaeth oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad gwladolyn Prydeinig a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig gysylltu â'r **Swyddfa Dramor a Chymanwlad**. Maent yn darparu cymorth consylaidd, megis gwybodaeth am brosesau lleol gan gynnwys opsiynau dychwelyd, ac efallai y gallent gyfeirio teulu'r ymadawedig at wasanaethau cymorth arbenigol. Ceir rhagor o wybodaeth ar **Gov.uk**

Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod y term "**achwynydd**" yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y system cyfiawnder troseddol i ddisgrifio person sydd wedi gwneud honiad troseddol i'r heddlu. Fodd bynnag, at ddibenion y Cod hwn, y diffiniad a nodir uchod a ddefnyddir.

## Cymorth i dystion sydd wedi diodefwyr niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd

Os ydych wedi diodefwyr niwed, gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd, o ganlyniad uniongyrchol i fod yn dyst i drosedd, gallwch gael mynediad at wasanaethau cymorth i ddiodefwyr dan y Cod hwn. Nid oes angen i chi fod wedi darparu datganiad i'r heddlu neu wedi eich cyfweld gan yr heddlu, neu orfod mynychu llys fel tyst.

## Busnesau sydd wedi diodefwyr troseddau yn eu herbyn

Mae busnesau sydd wedi diodefwyr troseddau yn eu herbyn â'r hawl i dderbyn gwybodaeth a gwasanaethau o dan y Cod hwn, os ydynt yn darparu pwynt cyswllt a enwir ar gyfer bob cyfathrebiad rhwng y busnes a'r darparwr gwasanaeth.

Mae hyn yn cynnwys busnesau neu fentrau (megis elusennau), ond nid cyrff sector cyhoeddus, eu hasiantaethau neu is-sefydliad arall.

## Sut allwch chi ddisgwyl cael eich trin

Mae gennych **Hawl** i gael eich trin gyda pharch, urddas, sensitifrwydd, tosturi a chwarteisi, ac i'ch hawl i wneud dewisiadau gwybodus gael ei pharchu'n llawn. Hefyd, rhaid i **ddarparwyr gwasanaethau** barchu eich preifatrwydd yn unol â'u rhwymedigaethau o dan gyfreithiau preifatrwydd a diogelu data perthnasol. Dylid darparu gwasanaethau i'ch helpu chi a'ch teulu ddeall ac ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol a dylid cynnig y rhain mewn modd proffesiynol heb wahaniaethu o unrhyw fath.

<sup>1</sup> Mae'r Cod i Ddiodefwyr yn cael ei gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder dan adran 32 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Ddiodefwyr 2004.

<sup>2</sup> Nid yw personau cyfreithiol (e.e. busnesau) yn cael eu cynnwys o fewn y diffiniad o ddiodefwyr; dim ond os ydynt yn darparu cyswllt a enwir y gallant dderbyn gwasanaethau dan y Cod hwn.

<sup>3</sup> At ddibenion y Cod hwn, mae 'trosedd' yn golygu trosedd a gaiff ei chyflawni, neu sy'n destun achos troseddol, yng Nghymru a Lloegr.

<sup>4</sup> Mae hyn fel arfer yn cyfeirio at briod, partner, perthnasau mewn llinell uniongyrchol, brodyr a chwiorydd a dibynyddion y diodefwyr. Gall

aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys gwarcheidwaid a gofalwyr, gael eu hystyried yn berthnasau agos yn ôl disgrisiwn y darparwr gwasanaeth.

<sup>5</sup> Oni bai bod y rhiant neu warcheidwad yn destun ymchwilliad neu wedi cael ei gyhuddo gan yr heddlu mewn cysylltiad â'r drosedd neu os ym marn resymol y darparwr gwasanaeth dan sylw nad yw er lles y diodefwyr i'ch rhiant neu warcheidwad dderbyn gwasanaethau o'r fath.

<sup>6</sup> Ar bob adeg, rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth i ddarparwyr gwasanaethau. Os yw oed y diodefwyr yn ansicr ac mae rhesymau i gredu bod y person o dan 18 oed, dylai darparwyr gwasanaethau dybio bod y person o dan 18 oed.

Rhaid i **ddarparwyr gwasanaethau** geisio lleihau'r nifer o wahanol bobl yr ydych yn dod i gysylltiad â nhw trwy gydol oes eich achos. Lle y bo'n bosibl, dylent gynnig un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth am eich achos.

### **Beth os nad wyf eisiau derbyn y gwasanaethau a gynigir o dan y Cod hwn?**

Efallai y byddwch yn penderfynu nad ydych eisiau rhai neu'r cyfan o'r gwasanaethau y mae gennych hawl iddynt o dan y Cod hwn, neu eich bod am optio allan o dderbyn rhai yn ddiweddarach. Gallwch drafod hyn gyda'r **darparwr gwasanaeth** perthnasol ar unrhyw adeg.

Gallwch ddewis optio'n ôl i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod hwn ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, yr unig amser y bydd rhai hawliau ar gael yw pan fo'r achos yn y broses o gael ei ymchwilio'n weithredol neu'n cael ei erlyn, neu fod y troseddwr yn dal i dreulio ei ddedfryd.

### **Beth os nad wyf eisiau adrodd wrth yr heddlu am y drosedd?**

Mae gennych hawliau dan y Cod hwn, p'un a ydych yn adrodd wrth yr heddlu am y drosedd ai peidio, p'un a yw unrhyw un wedi ei gyhuddo neu ei euogfarnu o drosedd a p'un a ydych yn penderfynu nad ydych eisiau cydweithredu â'r ymchwiliad ai peidio<sup>7</sup>.

### **Gwybodaeth a ddarperir o dan y Cod hwn**

Os, yn dilyn ymchwiliad, y penderfynir nad ydych yn ddioddefwr trosedd, byddwch chi, neu ble bo'n berthnasol y llfarydd teuluol, yn cael eich hysbysu gan y **darparwr gwasanaeth** perthnasol nad ydych bellach â hawl i wasanaethau o dan y Cod hwn.

Rhaid i **ddarparwyr gwasanaethau** gynnwys gwybodaeth am y Cod hwn ar eu gwefannau. Rhaid i'r wybodaeth hon gyfeirio dioddefwyr at y tudalennau perthnasol ar **Gov.uk**

Lle ceir nifer uchel o ddioddefwyr mewn achos, neu ble bo fel arall yn briodol mewn achosion eithriadol, efallai y bydd y **darparwr gwasanaeth** yn cyfleu'r wybodaeth fod gan y dioddefwr hawl dan y Cod hwn drwy sianeli eraill megis gwefan y **darparwr gwasanaeth**, yn hytrach na chysylltu â phob dioddefwr yn unigol.

Nid oes dim yn y Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i **ddarparwr gwasanaeth** ddarparu gwybodaeth i'r dioddefwr lle byddai ei datgelu:

- yn gallu arwain at niwed i unrhyw berson;
- yn gallu effeithio ar ymdriniaeth briodol o unrhyw ymchwiliad troseddol neu erlyniad, neu a allai fel arall niweidio unrhyw achos sifil neu droseddol; neu

<sup>7</sup> Os ydych yn ystyried gwneud cais am iawndal anafiadau troseddol i'r Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol, dylech fod yn ymwybodol y bydd dyfarniad yn cael ei ddal yn ôl oni bai eich bod wedi cydweithio mor bell ag sy'n rhesymol ymarferol o ran dod â'r ymosodwr o flaen ei well.

- a fyddai, ym marn y **darparwr gwasanaeth**, yn groes i fuddiannau diogelwch cenedlaethol.

### **Eich hawl i gael eich diogelu**

Mae gennych **Hawl** i gael eich diogelu rhag ail-erledigaeth, cael eich bygwth neu ddioddef dialedd yn ystod ac ar ôl yr ymchwiliad a gweithrediadau cyfreithiol.

Mewn achos annhebygol bod y sawl sydd dan amheuaeth (cyn-treial) neu droseddwr (yn dilyn euogfarn) yn dianc o'r ddalffa, bydd yr **heddlu**, unwaith eu bod yn ymwybodol o'r ddihangfa neu'n cael eu hysbysu ohono gan y carchar, y **Tîm Troseddau Ieuencid**, ysbyty neu ganolfan cadw mewnfudwyr, yn cysylltu â chi ac os asesir fod y sawl sydd dan amheuaeth neu'r troseddwr yn golygu risg sylweddol o niwed i chi, byddant yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i'ch diogelu.

Dylech gysylltu â'r **heddlu** ar **999** os ydych yn pryderu am eich diogelwch uniongyrchol.

Os ydych yn derbyn cyswllt nas dymunir gan droseddwr yn y carchar, dylech gysylltu â'r Llinell Gymorth i Ddioddefwyr **<sup>8</sup>Gwasanaeth Carchardai a Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi** ar 0300 060 6699<sup>9</sup> neu e-bostio **victim.help@justice.gov.uk**

<sup>8</sup> Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol gynnal llinell gymorth (Llinell Gymorth i Ddioddefwyr) i sicrhau bod gan ddioddefwyr rif i'w ffonio os ydynt yn derbyn cyswllt nas dymunir gan garcharor

<sup>9</sup> Llun - Gwener 9.00am – 4.00pm.

Os ydych yn derbyn cyswllt nas dymunir gan droseddwr sydd ar drwydded yn y gymuned, gallwch gysylltu â'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yr heddlu**, neu eich **Swyddog Cyswllt Dioddefwyr**, os oes gennych un.

Os yw'r troseddwr dan 18 oed ac yn cael ei oruchwylio gan **Dîm Troseddau Ieuentid**, dylech gysylltu gyda'r **Tîm Troseddau Ieuentid** hwnnw i roi gwybod am unrhyw gyswllt nas dymunir. Mae manylion cyswllt ar gael ar **Gov.uk**

### Beth os yw'r cyfryngau yn cysylltu â mi?

Weithiau gall y cyfryngau gymryd diddordeb yn yr achos a chysylltu â chi a'ch teulu am sylwadau. Yn gyffredinol, gall newyddiadurwyr fynd i'r llys ac adrodd ar y rhan fwyaf o dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno fel dystiolaeth yn y llys ac mae'n arferol i newyddiadurwyr fod eisiau siarad â'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r achos wrth ysgrifennu stori am yr achos. Nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i siarad â'r cyfryngau.

Gall fod manteision ac anfanteision o siarad â'r cyfryngau, ond os oes gennych unrhyw bryderon neu os hoffech ychydig o gyngor, gallwch siarad gyda'r **heddlu** neu ddarparwr cymorth i ddiodeffwyr. Fel arall, gallwch gysylltu â **Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg** drwy ymweld â **www.ipso.co.uk**, gallant siarad â chi am eich pryderon a rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol.

### Mynediad at gymorth meddygol

Os ydych wedi dioddef trosedd a bod gennych angenion iechyd corfforol neu feddyliol o ganlyniad, gallwch gael mynediad at wasanaethau'r **Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)**. Nid oes angen i chi fod wedi adrodd wrth yr heddlu am drosedd er mwyn cael mynediad at wasanaethau'r GIG.

Os bydd rhywun yn ddifrifol wael neu wedi'u hanafu, a bod eu bywyd mewn perygl, ffoniwch y gwasanaethau brys ar **999**. Os nad oes bygythiad i fywyd, mae nifer o opsiynau eraill y gallwch eu cymryd:

- os yw'n fater brys, ewch i'r Ganolfan Galw i Mewn y **GIG** leol neu eich canolfan gofal brys leol/uned mân anafiadau, neu wneud eich ffordd i'ch adran gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys leol;
- os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud ac angen cyngor, ffoniwch linell gymorth meddygol di-argyfwng 111 (NHS England) neu **0845 46 47** (GIG Cymru) ; neu
- os nad yw'n fater brys, ymwelwch â neu ffoniwch eich **Meddyg Teulu** (GP) (a all eich cyfeirio at wasanaethau arbenigol gan gynnwys cymorth iechyd meddwl) neu siaradwch â fferylllydd.

Mae mwy o wybodaeth am wasanaethau'r **GIG** ar gael ar y wefan **www.nhs.uk** neu **www.wales.nhs.uk**, trwy ffonio **111 / 0845 46 47** (yng Nghymru/Lloegr) neu drwy ymweld â'ch meddyg teulu.

Hefyd, mae rhai gwasanaethau arbenigol y gallwch gael mynediad uniongyrchol atynt drwy hunan-atgyfeirio, er enghraifft, canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol.

Os nad ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig, mae rhai gwasanaethau iechyd yn cael eu heithrio rhag talu. Ceir manylion pellach am eithriadau i'r taliadau yn **Gov.uk**

### Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r hawliau?

Mae'r Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau canlynol gwrrd â'r hawliau a nodir yn y Cod hwn:

- Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau
- Pob heddlu yng Nghymru a Lloegr, Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn
- Unedau Gofal Tystion yr Heddlu<sup>10</sup>
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
- Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Y Bwrdd Parôl
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddau
- Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
- Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol
- Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig
- Timau Troseddau Ieuentid

### Darparwyr gwasanaethau eraill

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau eraill hefyd swyddogaethau mewn perthynas ag ymchwilio i drosedd a/neu erlyn trosedd. Fodd bynnag, yn wahanol i'r **heddlu** a'r **CPS**, sydd â chylch gorchwyl eang i ymchwilio i droseddau ac erlyn troseddau, mae cylch gwaith **darparwyr gwasanaethau** eraill yn gyfyngedig a chanddynt rolau arbenigol yng nghyd-destun achosion troseddol. Yn aml, mae eu swyddogaethau troseddol yn cael eu cyfyngu i ymchwilio ac erlyn mathau penodol o droseddau a gyflawnwyd o dan rai amgylchiadau. Mae'r swyddogaethau hyn i raddau helaeth yn penderfynu ar y ffyrdd y maent yn dod i gysylltiad â diodeffwyr, ac amllder y cysylltiadau hynny.

Mae gan rai o'r sefydliadau hyn amrywiaeth o bwerau gorfodi troseddol, sifil a rheoliadol. Dim ond i'w swyddogaethau gorfodi troseddol y mae'r hawliau yn y Cod hwn yn berthnasol.

Mae'r hawliau a ddarperir gan y sefydliadau hyn a'r ffordd y cânt eu cyflenwi'n dibynnu ar y swyddogaeth(au) y maent yn ymgymryd â hi/ â nhw. Lle maent yn ymgymryd â swyddogaethau sy'n cyfateb i rai darparwr gwasanaeth penodol (e.e. yr **heddlu**), rhaid iddynt gyflenwi'r hawliau sydd wedi'u neilltuo i'r darparwr gwasanaeth a bennir isod

<sup>10</sup> Yr Uned Gofal Tystion yw'r enw generig i ddisgrifio swyddogaeth o dan arweiniad yr heddlu sy'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth i ddiodeffwyr a thystion mewn achosion sy'n symud ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol. Gall yr uned hon fod dan enw arall yn

eich ardal leol. Bydd yr heddlu yn dweud wrthyhych beth yw enw'r uned sy'n cyflenwi'r hawliau a neilltuyd i'r Uned Gofal Tystion yn y Cod hwn.

heb oedi afresymol, gan gynnwys dweud wrth y dioddefwyr sut i ofyn am adolygiad o benderfyniad i beidio ag erlyn<sup>11</sup>.

Bydd rhai dioddefwyr yn derbyn cyfuniad o hawliau a ddarperir gan y **darparwyr gwasanaethau** uchod a **darparwyr gwasanaethau eraill** a restrir yma.

Mae'r **darparwyr gwasanaethau eraill** dan y Cod hwn yn cynnwys:

- Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (Gorfodaeth Droseddol)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- Y Comisiwn Hapchwarae
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Y Swyddfa Gartref (Gorfodi Mewnfudo)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
- Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd
- Y Swyddfa Twyll Difrifol

### **Rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

Mae **Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu** yn cael eu hethol yn lleol i sicrhau plismona effeithlon ac effeithiol. Mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori â dioddefwyr wrth osod y blaenoriaethau plismona yn eu hardal a dal **Prif Gwnstabl yr heddlu** yn eu hardal i gyfrif. Maent yn gyfrifol am gomisiynu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a amlinellir yn y Cod hwn. Ym mis Ebrill 2019, rhoddwyd mwy o gyfrifoldeb i'r Comisiynwyr o ran y gwaith o fonitro cydymffurfiad â hawliau yn y Cod hwn drwy eu **Partneriaethau Cyfiawnder Troseddol Lleol**.

### **Rôl y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion (Comisiynydd Dioddefwyr)**

Nid yw'r **Comisiynydd Dioddefwyr** yn cael ei restru fel darparwr gwasanaeth dan y Cod hwn. Mae hyn oherwydd bod gan y **Comisiynydd Dioddefwyr** ddyletswydd statudol i gadw'r Cod hwn dan adolygiad rheolaidd. Mae'n rhan o rôl y **Comisiynydd Dioddefwyr** i wrando ar farn dioddefwyr, deall y system cyfiawnder troseddol o'u safbwynt nhw, a cheisio helpu i wella'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael. Ni all y **Comisiynydd Dioddefwyr** helpu ag achosion unigol na herio asiantaethau cyfiawnder troseddol i wneud penderfyniadau gwahanol.

---

<sup>11</sup> Yn unol â hawl y darparwr gwasanaeth i adolygu'r cynllun.

# Crynodeb o Hawliau Dioddefwyr

Isod ceir crynodeb o'r hawliau sydd yn y Cod hwn. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ac ni fydd rhai hawliau yn berthnasol i bob dioddefwr. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran hawliau dioddefwyr isod.

## HAWL 1: I ALLU DEALL A CHAEL EICH DEALL

Mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd ei deall a chael cymorth i helpu i gael eich deall, gan gynnwys fmynediad at wasanaethau dehongli a chyfieithu, lle bo angen.

## HAWL 2: I GAEL COFNODI MANYLION Y DROSEDD HEB OEDI DIGYFIAWNHAD

Mae gennych **Hawl** i gael cofnodi manylion y drosedd gan yr heddlu cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad. Os oes angen i chi ddarparu datganiad tyst neu gael eich cyfweld, mae gennych **Hawl** i dderbyn cymorth ychwanegol i'ch cynorthwyo drwy'r broses hon.

## HAWL 3: I DDERBYN GWYBODAETH PAN YDYCH YN ADRODD WRTH YR HEDDLU AM Y DROSEDD

Mae gennych **Hawl** i dderbyn cadarnhad ysgrifenedig wrth adrodd am y drosedd, derbyn gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol a chael gwybod am raglenni neu wasanaethau i ddioddefwyr. Gallai hyn gynnwys gwasanaethau lle gallwch gwrrd â'r sawl sydd dan amheuaeth neu'r troseddwr; gelwir hyn yn gyfiawnder adferol.

## HAWL 4: I GAEL EICH ATGYFEIRIO AT WASANAETHAU CEFNOGI DIODDEFWYR A CHAEL GWASANAETHAU A CHEFNOGAETH WEDI EU TEILWRA I'CH ANGHENION

Mae gennych **Hawl** i gael eich atgyfeirio at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr, gan gynnwys cysylltu â nhw yn uniongyrchol, ac i gael asesiad o'ch anghenion fel y gall gwasanaethau a chymorth gael eu teilwra i ddiwallu eich anghenion. Os ydych yn gymwys, mae gennych **Hawl** i gael cynnig atgyfeiriad at wasanaethau cymorth arbenigol a chael gwybod am gymorth ychwanegol sydd ar gael yn y llys (mesurau arbennig).

## HAWL 5: I DDERBYN GWYBODAETH AM IAWNDAL

Mae gennych **Hawl** i gael gwybod sut i hawlio iawndal.

## HAWL 6: I DDERBYN GWYBODAETH AM YR YMCHWILIAD A'R ERLYNIAD

Mae gennych **Hawl** i gael diweddariadau ar eich achos a chael gwybod pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu cymryd, gan gynnwys, os yn bosibl, sut i ofyn am edrych unwaith eto ar benderfyniad.

## HAWL 7: I WNEUD DATGANIAD PERSONOL DIODDEFWR

Mae gennych **Hawl** i wneud Datganiad Personol Dioddefwr, sy'n dweud wrth y llys sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch, ac a gaiff ei ddefnyddio gan y llys wrth ddedfrydu'r troseddwr. Byddwch yn cael gwybodaeth am y broses a gofynnir i chi sut yr hoffech i'ch datganiad gael ei ddefnyddio yn y llys.

## HAWL 8: I DDERBYN GWYBODAETH AM Y TREIAL, PROSES Y TREIAL A'CH RÔL FEL TYST

Os bydd eich achos yn mynd i'r llys, mae gennych **Hawl** i gael gwybod am amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriad a chanlyniad y gwrandawriadau hynny. Os bydd angen i chi roi tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i gael cynnig help cyn y treial a, lle y bo'n bosibl, i gyfarfod gyda'r erlynydd cyn rhoi tystiolaeth.

## HAWL 9: I DDERBYN GWYBODAETH AM GANLYNIAD YR ACHOS AC UNRHYW APELIADAU

Mae gennych **Hawl** i gael gwybod am ganlyniad yr achos ac, os yw'r diffynnydd yn euog, i dderbyn eglurhad o'r ddedfryd. Os bydd y troseddwr yn apelio yn erbyn eu heuogfarn neu ddedfryd, mae gennych **Hawl** i gael gwybod am yr apêl a'i chanlyniad.

## HAWL 10: I DDERBYN TREULIAU A CHAEL EICH EIDDO YN ÔL

Os oes gofyn i chi fynychu llys a rhoi thystiolaeth, mae gennych **Hawl** i hawlio treuliau penodol. Os cymerwyd unrhyw eiddo oddi arnoch fel tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i'w gael yn ôl cyn gynted â phosibl.

## HAWL 11: I DDERBYN GWYBODAETH AM Y TROSEDDWR YN DILYN EUOGFARN

Os ydych yn gymwys, mae gennych **Hawl** i gael eich hatgyfeirio'n awtomatig at y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, sy'n gallu rhoi gwybodaeth i chi am y troseddwr.

## HAWL 12: I WNEUD CWYN AM HAWLIAU SYDD HEB EU DIWALLU

Os ydych yn credu nad ydych wedi derbyn eich hawliau, mae gennych **Hawl** i wneud cwyn i'r darparwr gwasanaeth perthnasol. Os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd.

# Hawliau Dioddefwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol

## I bwy mae'r Hawliau'n berthnasol?

Bydd pa **Hawliau** sy'n berthnasol i chi dan y Cod hwn yn dibynnu ar p'un a adroddwyd wrth yr **heddlu** am y drosedd, os yw'r achos yn mynd i'r llys, yn ogystal â'ch anghenion a'ch amgylchiadau personol.

Mae **Hawliau 1, 4 a 12** yn berthnasol i **bob** dioddefwr; dim ond pan fo'r drosedd wedi ei hadrodd i'r heddlu y mae'r Hawliau eraill yn berthnasol. Bydd y **darparwr gwasanaeth** perthnasol yn dweud wrthyhych pa **Hawliau** sy'n berthnasol i'ch achos.

## Hawliau Estynedig

Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod dioddefwyr a ystyrir yn **agored i niwed** neu **wedi eu bygwth**, yn **ddioddefwr y drosedd fwyaf difrifol** (gan gynnwys **perthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth**), neu sydd wedi eu **targedu dro ar ôl tro** yn fwy tebygol o fod angen mwy o gymorth. Efallai y bydd rhai dioddefwyr yn perthyn i un neu fwy o'r categorïau hyn.

Gall cefnogaeth o'r fath gynnwys cael cynnig atgyfeiriad at wasanaeth cymorth arbenigol, y gwneir cyswllt â nhw ynghynt ar ôl penderfyniadau allweddol, a chael mynediad at fesurau arbennig (gweler **Hawl 4**). O fewn pob **Hawl**, rydym wedi tynnu sylw lle mae hawliau estynedig yn berthnasol.

Unwaith mae'r **darparwr gwasanaeth** wedi nodi eich bod yn gymwys i hawliau estynedig o dan y Cod hwn, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i **ddarparwyr gwasanaethau** eraill sydd â chyfrifoldebau dan y Cod hwn a, lle y bo'n briodol, i wasanaethau cymorth i ddioddefwyr.

Os nad ydych yn dod o fewn y categorïau a amlinellir uchod, gall **darparwr gwasanaeth** arfer eu disgrisiwn a darparu mynediad at rai hawliau estynedig, yn dibynnu ar eich amgylchiadau neu effaith y drosedd.

## Dioddefwyr agored i niwed neu sydd wedi eu bygwth

Rydych yn gymwys i hawliau estynedig o dan y Cod hwn fel dioddefwr sy'n **agored i niwed**<sup>12</sup> os:

- ydych chi o dan 18 oed ar adeg y drosedd<sup>13</sup>, neu
- bod ansawdd eich tystiolaeth yn debygol o gael ei effeithio oherwydd:
  - eich bod yn dioddef o anhwylder meddyliol yn unol ag ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983;
  - fel arall â nam sylweddol o ran deallusrwydd a gweithredu cymdeithasol; neu
  - bod gennych anabledl corfforol neu'n dioddef o anhwylder corfforol.

<sup>12</sup> Mae hyn yn seiliedig ar y meini prawf yn adran 16 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA), i'r llys bennu cymhwyster am fesurau arbennig.

Rydych yn gymwys i hawliau estynedig o dan y Cod hwn fel dioddefwr sydd **wedi ei fygwth** os yw'r **darparwr gwasanaeth** yn ystyried y bydd ansawdd eich tystiolaeth yn cael ei effeithio oherwydd eich ofn a gofid am roi tystiolaeth yn y llys<sup>14</sup>.

Wrth asesu a yw dioddefwr **wedi ei fygwth**, rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** ystyried:

- yr ymddygiad tuag at y dioddefwr ar ran y sawl sydd dan amheuaeth, aelodau o'u teulu neu eu cydnabod, neu unrhyw berson arall sy'n debygol o fod yn rhywun dan amheuaeth neu'n dyst yn yr achos;
- oedran y dioddefwr;
- os yw'n berthnasol, cefndir cymdeithasol a diwylliannol y dioddefwr, ei gredoau crefyddol neu farn wleidyddol, tarddiad ethnig, amgylchiadau domestig a chyflogaeth;
- natur ac amgylchiadau honedig y drosedd y mae'r achos yn ymwneud â hi. Bydd dioddefwyr trosedd rywiol neu fasnach mewn pobl yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi eu bygwth; ac
- unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr.

## Dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol

Rydych yn gymwys i hawliau estynedig o dan y Cod hwn fel **dioddefwr y drosedd fwyaf ddifrifol** os ydych yn berthynas agos wedi dioddef profedigaeth oherwydd trosedd, wedi dioddef trais domestig, trosedd casineb, terfysgaeth, troseddau rhywiol, masnachu mewn pobl, caethwasiaeth fodern, ymgais i lofruddio, herwgipio, carcharu ar gam, llosgi bwriadol gyda'r bwriad o beryglu bywyd, ac anafu neu achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol.

Mae'r hawliau estynedig ychwanegol sydd ar gael ar gyfer **perthnasau agos sydd wedi dioddef profedigaeth** yn cael eu nodi ar wahân ar wahanol gamau'r Cod hwn.

## Dioddefwyr a dargedwyd yn gyson

Rydych yn gymwys i hawliau estynedig o dan y Cod hwn fel **dioddefwr a dargedwyd yn gyson** os ydych wedi cael eich targedu dro ar ôl tro fel dioddefwr uniongyrchol o drosedd dros gyfnod o amser, yn enwedig os ydych wedi cael eich targedu yn fwriadol neu os ydych yn dioddef o ymgyrch barhaus o aflonyddu neu stelcio.

<sup>13</sup> Am hawliau estynedig cyffredinol o dan y Cod hwn. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig o dan adran 16 o YJCEA, rhaid i chi fod o dan 18 oed ar adeg y gwrandawriad.

<sup>14</sup> Mae hyn yn seiliedig ar y meini prawf cymhwyster ar gyfer mesurau arbennig yn adran 17 o'r YJCEA.

## HAWL 1: I ALLU DEALL AC I GAEL EICH DEALL

- 1.1 Mae gennych **Hawl** i gael help i ddeall beth sy'n digwydd ac i gael eich deall. Rhaid i bob **darparwr gwasanaeth** gyfathrebu mewn iaith syml a hygyrch.
- 1.2 Os, o ganlyniad i effaith y drosedd, eich bod angen cymorth i ddeall neu i gael eich deall, gallwch gael eich cefnogi gan berson o'ch dewis, oni bai bod y **darparwr gwasanaeth** yn ystyried na fyddai er eich lles chi, neu y byddai'n cael effaith ar yr ymchwiliad neu'r erlyniad. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd y **darparwr gwasanaeth** yn dweud pam wrthych.
- 1.3 Os ydych yn cael anhawster deall neu siarad Saesneg, mae gennych **Hawl** i gael cyfieithydd ar gais i'ch helpu i ddeall pan:
- yn adrodd am drosedd<sup>15</sup>;
  - wrth gael eich cyfweld gan yr heddlu; ac
  - wrth roi tystiolaeth fel tyst.
- 1.4 Gallwch hefyd dderbyn cyfieithiad ar gais o unrhyw ddogfen lle mae'n hanfodol at ddibenion y cyfweliad neu'r achos llys i weld dogfen a roddir i chi, gan gynnwys:
- cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r drosedd yr adroddwyd amdani;
  - lle mae'n hanfodol at ddibenion y cyfweliad neu'r gwrandawriad llys i weld dogfen benodol a ddatgelir i chi, copi o rannau perthnasol y ddogfen;
  - y ddogfen yn eich hysbysu o ddyddiad, amser a lleoliad y treial; a
  - chanlyniad achos troseddol, ac o leiaf resymau byr dros y penderfyniad pan fyddant ar gael.
- 1.5 Gallwch hefyd dderbyn cyfieithiad llafar neu grynoded o unrhyw un o'r dogfennau a restrir uchod ar gais, oni byddai gwneud hynny'n niweidio tegwch yr achos.
- 1.6 Rhaid i bob gwasanaeth cyfieithu neu ddehongli a ddarperir o dan yr hawl hon gael ei gynnis am ddim i'r dioddefwr.
- 1.7 Mewn gwrandawriadau yng Nghymru, mae gennych hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth roi tystiolaeth a bydd y llys yn gwneud y darpariaethau angenrheidiol<sup>16</sup>.

## HAWL 2: I GAEL COFNODI MANYLION Y DROSEDD HEB OEDI DIGYFIAWNHAD

- 2.1 Mae gennych **Hawl** i gael cofnodi manylion y drosedd gan yr **heddlu** cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad. Pan fyddwch yn adrodd am ddogwyddiad, bydd gofyn i chi ddarparu manylion am y drosedd.
- 2.2 Os gofynnir i chi wneud datganiad tyst, dylai'r heddlu esbonio i chi y gallai hyn olygu eich bod angen rhoi tystiolaeth yn y llys os bydd yr achos yn mynd i dreial.
- 2.3 Os gofynnir i chi gael eich cyfweld, dylai unrhyw gyfweliad ddigwydd heb oedi digyfiawnhad; dylid cadw nifer y cyfweliadau i'r lleiaf posibl, a lle bo modd dylent gael eu cynnal gan yr un person. Rhaid i'r **heddlu** gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau nad oes rhaid i chi (a'ch teulu) gael cyswllt diangen â'r sawl sydd dan amheuaeth.
- 2.4 Rhaid i'r **heddlu** ystyried p'un a fydddech yn elwa o gymorth ychwanegol yn ystod y cyfweliad a sicrhau ei fod yn digwydd mewn eiddo a ddyluniwyd neu a addaswyd i'r diben a dylent gael eu cynnal gan neu drwy weithwyr proffesiynol hyfforddedig i'r diben hwnnw. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr **heddlu** yn dweud pam wrthych.
- 2.5 Mae gennych hefyd **Hawl** i ddod â rhywun o'ch dewis gyda chi i'r cyfweliad. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr **heddlu** yn dweud pam wrthych.
- 2.6 Os yw'r **heddlu** yn credu y gallech fod yn **agored i niwed** (gweler yr **adran hawliau estynedig**), rhaid iddynt ystyried a fydddech yn elwa ar gefnogaeth **Cyfrwygydd Cofrestredig** a gwneud unrhyw addasiadau rhesymol eraill yn seiliedig ar eich anghenion.
- Beth yw Cyfrwygydd Cofrestredig?**

Cyfrwygydd Cofrestredig yw arbenigwr cyfathrebu hunangyflogedig sy'n helpu dioddefwyr a thystion agored i niwed i roi tystiolaeth i'r heddlu ac i'r llys mewn achosion troseddol.
- 2.7 Os oes angen archwiliad meddygol at ddibenion yr achos troseddol, rhaid cadw'r rhain i isafswm.

<sup>15</sup> Mae gennych hawl i adrodd ynghylch y drosedd mewn iaith yr ydych yn ei deall neu gyda chymorth ieithyddol angenrheidiol os nad ydych yn ei siarad Saesneg.

<sup>16</sup> Mae adran 22(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu: "Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru, gall yr iaith Gymraeg gael ei siarad gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno ei

defnyddio". Nid oes angen rhoi hysbysiad ymlaen llaw i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn achosion llys ynadon. Fodd bynnag, weithiau mae'n angenrheidiol er mwyn gallu trefnu cyfieithu, a bydd hysbysiad ymlaen llaw yn cael ei roi i'r Uned Gymraeg wneud y darpariaethau angenrheidiol.

- 2.8 Os ydych yn ddiodeffwr trais rhywiol, trais seiliedig ar rywedd neu gam-drin domestig, mae gennych **Hawl** i ofyn bod y swyddog heddlu a fydd yn cynnal y cyfweiliad o'r un rhyw â chi. Rhaid i'r **heddlu** gydymffurfio â'r cais hwn oni byddai gwneud hynny yn niweidiol i degwch yr achos. Os digwydd hyn, bydd yr heddlu yn dweud pam wrthyh.
- 2.9 Os ydych o dan 18 oed, bydd yr **heddlu** yn gofyn i chi, neu eich rhiant/gwarcheidwad, os hoffech i'ch cyfweiliad gael ei recordio ar fideo i'w gwneud yn haws i chi ddweud wrth yr heddlu beth ddigwyddodd, gan y gall hyn olygu nad oes rhaid i chi ei ailadrodd yn y llys. Gallwch ddewis rhoi tystiolaeth fyw yn y llys yn hytrach na chyflwyno datganiad fideo fel eich tystiolaeth, pe byddai'n well gennych.

### HAWL 3: I DDERBYN GWYBODAETH PAN YDYCH YN ADRODD WRTH YR HEDDLU AM Y DROSEDD

- 3.1 Os byddwch yn penderfynu adrodd wrth yr heddlu am drosedd<sup>17</sup>, mae gennych **Hawl** i gael cadarnhad ysgrifenedig. Bydd hyn yn cynnwys manylion sylfaenol y drosedd, cyfeirnod trosedd a manylion cyswllt swyddog yr heddlu sy'n delio â'ch achos. Gallai'r cadarnhad fod trwy lythyr, e-bost, neges destun, neu gallai fod wedi ei ysgrifennu â llaw.
- 3.2 Os yw'r heddlu o'r farn y gallai fod risg o niwed i chi petaent yn anfon cadarnhad ysgrifenedig, er enghraifft mewn achosion o gam-drin domestig, gallant gytuno â chi i beidio ag anfon un.
- 3.3 Bydd yr **heddlu** yn esbonio ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol a'ch **Hawliau** fel diodeffwr. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ble a sut i gael cyngor a chefnogaeth. Gall hyn gynnwys, lle bo hynny'n briodol ac ar gael, fynediad at gymorth meddygol, cymorth arbenigol, megis cymorth seicolegol (yn cynnwys therapi cyn-treial a chwmsela), a llety amgen. Bydd yr **heddlu** hefyd yn egluro'r trefniadau sydd ar gael os nad ydych yn byw yng Nghymru a Lloegr.
- 3.4 Bydd yr heddlu yn esbonio i chi, lle bo'n berthnasol, sut i geisio iawndal (gweler **Hawl 5**) a sut i gael mynediad at **wasanaethau Cyfiawnder Adferol**.

### Beth yw Cyfiawnder Adferol?

Gall **Cyfiawnder Adferol** roi cyfle i chi esbonio i'r troseddwr yr effaith y mae eu trosedd wedi'i chael arnoch chi. Dim ond os ydych chi a'r troseddwr, ar ôl cydnabod ffeithiau sylfaenol yr achos, eisiau cymryd rhan y bydd hyn yn digwydd, a phan fo hwylusydd hyfforddedig yn penderfynu ei fod yn ddiogel ac yn briodol.

Byddwch yn cael gwybodaeth lawn a diduedd am **Gyfiawnder Adferol** a sut i gymryd rhan.

Mae **Cyfiawnder Adferol** yn wirfoddol, nid oes rhaid i chi gymryd rhan a gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.

Gallwch ofyn am gael cymryd rhan mewn **Cyfiawnder Adferol** ar adeg sy'n addas i chi ac efallai y gofynnir i chi gymryd rhan oherwydd bod y troseddwr wedi gofyn am **Gyfiawnder Adferol**. Hyd yn oed os ydych chi a'r troseddwr eisiau cymryd rhan, efallai na fydd yn briodol, a bydd yr hwylusydd hyfforddedig yn asesu hyn.

- 3.5 Mae'n rhaid i bob gwybodaeth o dan yr hawl hon gael ei darparu o fewn 5 diwrnod gwaith (**estynedig** - 1 diwrnod gwaith) o adrodd am y drosedd.
- 3.6 Os ydych yn **berthynas agos sydd wedi diodeff** **profedigaeth**, mae gennych hawl i gael **Swyddog Cyswllt Teuluol** wedi'i neilltuo i chi gan yr **heddlu**, pan fo'r **Uwch Swyddog Ymchwilio** yn ystyried hyn yn briodol - bydd hyn yn digwydd yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd eich **Swyddog Cyswllt Teuluol** fel arfer yn gweithredu fel y pwynt cyswllt rhyngoch chi a **darparwyr gwasanaethau**.

<sup>17</sup> Neuos gwnaed honiad o'r fath ar eich rhan, neu os cysylltir â chi fel diodeffwr yn ystod ymchwiliadau.



## HAWL 4: I GAEL CYNNIG ATGYFEIRIAD AT WASANAETHAU CYMORTH I DDIODDEFWYR A CHAEL GWASANAETHAU A CHEFNOGAETH WEDI EU TEILWRA I'CH ANGHENION

### Asesiadau Anghenion

- 4.1 Pan fyddwch yn adrodd wrth yr heddlu am drosedd, mae gennych **Hawl** i gael cynnig asesiad o p'un a ydych eisiau cymorth, ac os felly pa help neu gymorth efallai y byddwch ei angen. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o p'un a ydych yn gymwys i dderbyn hawliau estynedig a nodwyd yn gynharach yn y Cod hwn. Po fwyaf o wybodaeth y gallwch ei darparu yn ystod yr asesiad, y mwyaf y caiff lefel y cymorth a'r gefnogaeth eu teilwra i'ch anghenion unigol.
- 4.2 Gan y gall eich anghenion newid yn ystod oes eich achos, mae'n rhaid i bob **darparwr gwasanaeth** roi cyfle i chi gael eich hailasesu os ydych yn dweud wrthynt sut mae eich anghenion wedi newid.
- 4.3 Os oes gofyn i chi fynychu llys i roi tystiolaeth, byddwch yn cael cynnig asesiad o anghenion ar wahân gan yr **Uned Gofal Tystion** i benderfynu a ydych angen unrhyw gymorth a chefnogaeth bellach cyn y treial ac yn y llys.

### Atgyfeirio at y Gwasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr

- 4.4 Mae Gwasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr yn sefydliadau ac elusennau annibynnol sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth i ddiodefwyr trosedd ymdopi ac adfer, cyn belled â bod hynny'n bosibl, ar ôl trosedd.
- 4.5 Mae gennych **Hawl** i gael mynediad at wasanaethau cymorth i ddiodefwyr ar unrhyw adeg, hyd yn oed os byddwch yn dewis peidio ag adrodd wrth yr heddlu am y drosedd. Os ydych yn adrodd wrth yr heddlu am y drosedd, byddant yn dweud wrthyf am y gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr sydd ar gael yn eich ardal leol a sut y byddwch yn cael eich atgyfeirio.
- 4.6 Mae'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth yn digwydd yn fuan ar ôl i chi gysylltu â'r **heddlu** ond weithiau efallai y bydd oedi wrth gael mynediad at y gwasanaethau hyn.
- 4.7 Os ydych yn dewis peidio ag adrodd wrth yr heddlu am y drosedd, gallwch gysylltu â'ch gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr lleol yn uniongyrchol. I chwilio am wasanaeth sy'n cefnogi diodefwyr yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch **Comisiynydd Heddlu a Throseddu** lleol neu ewch i **Gov.uk**
- 4.8 Os ydych yn **berthynas teuluol sydd wedi dioddef profedigaeth** mewn achos yn ymwneud â honiad o lofruddiaeth neu ddiodefwyr, mae gennych **Hawl** i

gael cynnig cyngor ar ymdopi â phrofedigaeth a chael cynnig atgyfeiriad i'r **Gwasanaeth Dynladdiad Cenedlaethol**. Fel arfer gwneir y cynnig hwn trwy eich **Swyddog Cyswllt Teuluol**.

### Beth yw'r Gwasanaeth Dynladdiad Cenedlaethol?

Mae'r **Gwasanaeth Dynladdiad Cenedlaethol** yn wasanaeth am ddim sy'n darparu cymorth emosiynol, ymarferol, arbenigol a chymheiriaid i deuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth oherwydd lofruddiaeth neu ddiodefwyr, gan gynnwys ar ôl gweithred o derfysgaeth.

- 4.9 Gan ddibynnu ar eich anghenion a natur eich achos, efallai y cewch gynnig cymorth arbenigol, er enghraifft gan **Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol** neu **Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol**. Maent wedi eu hyfforddi i ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol a byddant yn eich diweddarau am eich achos.
- 4.10 Bydd eich ymgynghorydd annibynnol fel arfer yn gweithredu fel eich pwynt cyswllt unigol drwy gydol yr achos ac yn cyfathrebu gyda'r **heddlu, yr Uned Gofal Tystion** a **Gwasanaeth Erllyn y Goron** ar eich rhan.
- 4.11 Os oes gofyn i chi roi tystiolaeth yn y llys, mae gennych **Hawl** i gael cynnig atgyfeiriad at y **Gwasanaeth Cefnogi Tystion (gweler Hawl 8)**.

### Beth yw Gwasanaethau Cefnogi Tystion?

Mae'r rhain yn wasanaethau rhad ac am ddim, fel y **Gwasanaeth Tystion yn y Llys**, sy'n rhoi cymorth i chi cyn, yn ystod ac ar ôl y treial. Maent yn cefnogi tystion i'r erlyniad a'r amddiffyniad. Gallant roi:

- gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl yn y llys, gan gynnwys ymweliad â'r llys i weld ystafell y llys ymlaen llaw a dysgu am weithdrefnau'r llys;
- rhywun i siarad yn gyfrinachol â nhw ynghylch sut rydych chi'n teimlo cyn y treial;
- lle tawel i ddisgwyl cyn cael eich galw i roi tystiolaeth;
- cymorth ymarferol (er enghraifft gyda hawlio eich treuliau); a
- chyfle i drafod yr achos pan fydd wedi dod i ben ac i gael rhagor o gymorth neu wybodaeth.

- 4.12 Ar ddiwedd eich achos, beth bynnag fo'r canlyniad, mae gennych **Hawl** i gael mynediad at wasanaethau cymorth i ddiodefwyr hyd yn oed os nad ydych chi wedi gwneud defnydd ohonynt o'r blaen. I chwilio am wasanaeth sy'n cefnogi diodefwyr yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch **Comisiynydd Heddlu a Throseddu** lleol neu **Gov.uk**

## Mesurau Arbennig

- 4.13 Mae gennych **Hawl** i gael asesiad o'ch anghenion gan yr heddlu neu'r **Uned Gofal Tystion** i benderfynu a ydych yn gymwys ac a fydddech chi'n elwa o roi tystiolaeth trwy ddefnyddio mesurau arbennig<sup>18</sup>.

### Beth yw mesurau arbennig?

Gellir rhoi **mesurau arbennig** yn eu lle ar gyfer dioddefwyr a thystion a ystyrir yn agored i niwed neu sydd wedi eu bygwth, i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau bosibl yn y llys. Mae mesurau arbennig cyffredin yn cynnwys rhoi tystiolaeth o'r tu ôl i sgrîn/ llen fel na all y diffynnydd nac arsylwyr y llys eich gweld, neu o du allan i'r llys drwy gyswllt fideo.

Mae **mesurau arbennig** eraill yn cynnwys: rhoi tystiolaeth yn breifat gan glirio'r oriel gyhoeddus; tynnu'r wigiau a'r gynau a wisgir gan y barnwr ac adfocadau'r amddiffyniad a'r erlyniad yn Llys y Goron; defnyddio cymhorthion cyfathrebu neu eich holi drwy gyfryngwr; neu gyflwyno recordiad fideo y tyst fel rhan o dystiolaeth y tyst, croesholi ac/neu ailarchwilio (a all olygu nad oes angen i'r tyst roi tystiolaeth yn y llys).

- 4.14 Mae rhai dioddefwyr yn gymwys i gael cynnig mesurau arbennig fel **tystion sy'n agored i niwed** (gweler yr adran hawliau estynedig).
- 4.15 Bydd dioddefwyr eraill yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig fel **tystion sydd wedi eu bygwth** (gweler yr adran hawliau estynedig).
- 4.16 Bydd y **barnwr** neu'r **ynadon** yn penderfynu a ddylid rhoi mesurau arbennig yn eu lle i dyst cymwys yn dilyn cais gan yr erlynydd. Bydd yr **Uned Gofal Tystion** yn rhoi gwybod i chi ynglŷn â phenderfyniad y llys (gweler **Hawl 8**). Bydd **staff llys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi** yn sicrhau bod unrhyw fesurau arbennig a ganiateir ar gael yn y llys.

## HAWL 5: I DDERBYN GWYBODAETH AM IAWNDAL

### Iawndal a orchymynwyd gan y llys

- 5.1 Os yw'r diffynnydd yn pledio'n euog neu'n cael ei ddyfarnu'n euog, efallai y bydd y llys yn ei orchymyn i dalu iawndal i chi am unrhyw golled,

difrod neu anaf a achoswyd o ganlyniad i'r drosedd. Mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr **heddlu** sut i wneud cais am iawndal ac efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth o'ch colled neu ddifrod, er enghraifft, derbynebaw neu ddyfynbrisiau ar gyfer atgyweirio'r difrod a achoswyd yn ystod y drosedd.

### Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol

- 5.2 Os ydych wedi dioddef anaf corfforol neu feddyliol yn sgil trosedd dreisgar, efallai y bydd gennych hawl i iawndal drwy'r **Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol**<sup>19</sup>. Mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr heddlu sut i wneud cais am iawndal drwy'r **Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol**<sup>20</sup> (gweler **Hawl 3**).
- 5.3 Mae'r Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol yn gyfrifol am weinyddu'r **Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol**.
- 5.4 Mae'n rhaid i chi wneud cais cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn dwy flynedd i ddyddiad y digwyddiad. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol os oeddech yn iau na 18 mlwydd oed ar adeg y digwyddiad.
- 5.5 Ni fydd yr awdurdod yn disgwyl am ganlyniad treial os oes eisoes ddigon o wybodaeth i benderfynu ar eich achos sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y Cynllun.
- 5.6 Ar ôl i chi wneud cais, bydd yr awdurdod yn cadarnhau bod eich cais wedi dod i law ac yn ymateb i bob gohebiaeth ysgrifenedig ynglŷn â chais o fewn **20** diwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei dderbyn.
- 5.7 Ar ôl ystyried eich cais, byddwch yn derbyn gwybodaeth am yr hawl i adolygu'r penderfyniad, gan gynnwys y weithdrefn a'r terfynau amser ar gyfer adolygu'r penderfyniad hwnnw.
- 5.8 Gellir cael mwy o wybodaeth am wneud cais am iawndal drwy ymweld â **Gov.uk**, gan yr **heddlu**, eich **Comisiynydd Heddlu a Throsedd** lleol neu trwy gysylltu â'r **Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol**.

<sup>18</sup> Cyflwynodd y Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA) amrywiaeth o fesurau y gellir eu defnyddio i hwyluso'r broses o gasglu a rhoi tystiolaeth gan dystion sy'n agored i niwed a rhai sydd wedi eu bygwth. Gyda'i gilydd, gelwir y mesurau hyn yn "fesurau arbennig". Mae mesurau arbennig yn helpu i leddfu rhywfaint o'r straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth ac maent yn berthnasol i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad, ond nid y diffynnydd.

<sup>19</sup> Os ydych yn ystyried gwneud cais am iawndal anafiadau troseddol i'r Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol, dylech fod yn ymwybodol y

bydd dyfarniad yn cael ei ddal yn ôl oni bai eich bod wedi cydweithio cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol i ddod â'r ymosodwr o flaen ei well.

<sup>20</sup> Gall cymhwyster ar gyfer iawndal gan yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol ddiybnu ar eich preswylid neu genedligrwydd oni bai eich bod wedi cael eich adnabod yn bendant fel dioddefwr masnachu mewn pobl, neu wedi cael lloches dan y Rheolau Mewnffido a wneir o dan adran 3(2) Deddf Mewnffido 1971.

## lawndal sifil (heb fod yn droseddol)

- 5.9 Gall fod yn bosibl gofyn am iawndal oddi wrth y sawl dan amheuaeth neu droseddwr y tu allan i'r broses cyfiawnder troseddol. Os ydych eisiau ystyried gwneud cais am iawndal sifil, dylech ofyn am gyngor a chymorth cyfreithiol gan gyfreithiwr.

## Cael cyngor/cymorth cyfreithiol ynglŷn â hawlio iawndal

- 5.10 Os ydych angen cyngor a/neu gymorth cyfreithiol, dylech gysylltu â chyfreithiwr. Os ydych ar incwm isel neu fudd-daliadau efallai y byddwch yn gallu cael cymorth cyfreithiol i helpu i dalu'r gost. Ceir mwy o wybodaeth am p'un a allwch gael Cymorth Cyfreithiol ar **Gov.uk**. I ddod o hyd i gyfreithiwr lleol, dylech gysylltu â **Chymdeithas y Gyfraith** drwy ymweld â: **www.lawsociety.org.uk**

## HAWL 6: I DDERBYN GWYBODAETH AM YR YMCHWILIAD A'R ERLYNIAD

- 6.1 Mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr **heddlu** pan wneir penderfyniadau allweddol ar yr ymchwiliad ac i gael esboniad o'r rhesymau o fewn 5 diwrnod gwaith (**estynedig** - o fewn 1 diwrnod gwaith) o'r amser y caiff y sawl sydd dan amheuaeth:
- ei arestio;
  - ei gyfweld dan rybudd;
  - ei ryddhau heb ei gyhuddo;
  - ei ryddhau ar fechniaeth yr heddlu neu o dan ymchwiliad neu os bydd amodau mechniaeth yr heddlu yn cael eu newid neu eu canslo.
- 6.2 Os yw'r **heddlu** yn penderfynu peidio ag ymchwilio i'ch achos, mae gennych yr hawl i gael gwybod pam o fewn 5 diwrnod gwaith (**estynedig** - 1 diwrnod gwaith) o'u penderfyniad.
- 6.3 Bydd yr **heddlu** yn trafod gyda chi pa mor aml yr hoffech chi dderbyn diweddariadau a'ch dewis ddull o gysylltu. Gallwch ddiweddarau eich dewisiadau ar unrhyw adeg.
- 6.4 Gallyr ymchwiliad a'r penderfyniad p'un a yw'r achos yn mynd i'r llys gymryd amser hir a gall fod cyfnodau hir rhwng penderfyniadau allweddol. Bydd yr **heddlu** yn trafod gyda chi os hoffech gael cyswllt rhwng penderfyniadau allweddol a byddant yn rhoi manylion cyswllt i chi os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ystod yr ymchwiliad.
- 6.5 Efallai y bydd adegau pan na fydd y **darparwr gwasanaeth** yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf

i chi yn rheolaidd a/neu ddefnyddio eich dewis dddull o gysylltu, ond byddant yn dweud pam wrthyhch.

- 6.6 Mewn rhai achosion, gall yr **heddlu**, y **CPS** neu'r **Tîm Troseddu Ieuentid**<sup>21</sup> benderfynu delio â'r achos heb fynd ag ef i'r llys. Gelwir hyn yn **warediad y tu allan i'r llys**<sup>22</sup>. Mae hyn yn galluogi'r digwyddiad i gael ei drin yn gymharol gyflym a gall fod yn fwy effeithiol o ran atal troseddau pellach.
- 6.7 Lle mae'r **heddlu**, y **CPS** neu'r **Tîm Troseddau Ieuentid** (os yw'r troseddwr dan 18 oed) yn ystyried **gwarediad y tu allan i'r llys** mae gennych **Hawl** i gael gofyn am eich barn ac i'r safbwyntiau hyn gael eu hystyried wrth i benderfyniad gael ei wneud. Lle nad yw hyn yn bosibl am resymau ymarferol, bydd yr **heddlu**, y **CPS** neu'r **Tîm Troseddau Ieuentid** yn dweud pam wrthyhch.
- 6.8 Bydd yr **heddlu**, y **CPS** neu'r **Tîm Troseddau Ieuentid** yn cymryd y penderfyniad terfynol ar ôl ystyried amgylchiadau llawn y drosedd, y troseddwr a'ch barn chi. Mae gennych **Hawl** i gael gwybod o fewn 5 diwrnod gwaith (**estynedig** - o fewn 1 diwrnod gwaith) am y penderfyniad i roi gwarediad y tu allan i'r llys i'r troseddwr.
- 6.9 Pan fydd yr **heddlu** wedi gorffen eu hymchwiliad, byddant yn penderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf neu, ar gyfer troseddau mwy difrifol, yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r **CPS**, a fydd wedyn yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i fynd â'r achos i'r llys.
- 6.10 Mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr **heddlu** neu'r **CPS**os ydynt yn penderfynu peidio ag erlyn y sawl sydd dan amheuaeth, ac i gael esboniad o'r rhesymau, cael gwybod sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth, sut i geisio adolygiad o dan **Gynllun Hawl i Adolygiad Dioddefwyr** yr **heddlu** neu'r **CPS**, a sut y gallwch gael gafael ar gymorth. Rhaid i'r wybodaeth gael ei darparu o fewn 5 diwrnod gwaith o'r penderfyniad (**estynedig** - o fewn 1 diwrnod gwaith).
- 6.11 Os ydych yn anhapus gyda phenderfyniad yr **heddlu** neu'r **CPS** i beidio ag erlyn y sawl sydd dan amheuaeth, mae gennych hawl i ofyn am adolygiad o dan **gynlluniau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu** neu **Gynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad y CPS**.

<sup>21</sup> Mae'r Tîm Troseddau Ieuentid yn dîm amlasiantaethol sy'n gweithio gyda phlant rhwng 10 a 17 oed sydd wedi troseddu, neu a all fod mewn perygl o droseddu. Maentyn cael eu cydlynu gan awdurdod lleol penodol ac fel rhan o'r system cyfiawnder ieuentid, maent yn cael eu monitro gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid.

<sup>22</sup> Dewisiadau eraill yn lle erlyn, megis rhybuddion, rhybuddion amodol a hysbysiadau cosb am anhrefn, a fwriedir ar gyfer ymdrin â throseddu lefel isel, troseddu am y tro cyntaf yn aml, lle na fyddai erlyniad er lles y cyhoedd.

### Beth yw'r Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad?

Mae'r **Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad** yn rhoi hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad yr **heddlu** neu'r **CPS** i beidio ag erlyn, neu fel arall i atal achos dioddefwyr troseddau.

- 6.12 Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo o drosedd(au), mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr **heddlu** o fewn **5** diwrnod gwaith (**estynedig** - o fewn **1** diwrnod gwaith):
- y drosedd y cyhuddir nhw ohoni;
  - dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad llys cyntaf; a
  - lle mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei ryddhau ar fechnïaeth yr heddlu i ymddangos yn y llys, unrhyw amodau mechnïaeth ac unrhyw newidiadau i'r amodau mechnïaeth hyn.
- 6.13 Os ydych yn berthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth mewn achos cymwys<sup>23</sup>, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod gyda'r **CPS** cyn neu yn dilyn penderfyniad y **CPS** ynglŷn â chyhuddo'r sawl sydd dan amheuaeth ai peidio. Os gwneir penderfyniad i gyhuddo, bydd y **CPS** yn egluro sut mae'r achos yn debygol o symud ymlaen ac yn ateb unrhyw gwestiynau y gallai fod gennych. Bydd y **CPS** hefyd yn trafod eich anghenion a chytuno ar y cyd pa mor rheolaidd y byddwch yn derbyn diweddiadau.
- 6.14 Os gwneir penderfyniad i atal cyhuddiad a bwrw ymlaen ag un arall, i wneud newid mawr i gyhuddiad(au); neu atal yr achos, bydd y **CPS** yn eich hysbysu o fewn **5** diwrnod gwaith (**estynedig** - o fewn **1** diwrnod gwaith). Byddant yn dweud wrthy ch sut i gael mwy o wybodaeth am eu penderfyniad, a sut i ofyn am adolygiad os ydych yn anghytuno gyda'r penderfyniad i atal yr achos o dan y **Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad**.
- 6.15 Os ydych yn ddioddefwr mewn achos penodol<sup>24</sup> lle mae'r **CPS** yn dweud wrthy ch am benderfyniad i beidio â chyhuddo'r sawl sydd dan amheuaeth, mae gennych **Hawl** i gwrdd â'r **CPS**. Dyma'r sefyllfa oni bai bod y **CPS** yn penderfynu na ddylai'r cyfarfod gael ei gynnal. Os bydd y **CPS** yn penderfynu nad yw'r cyfarfod yn briodol, byddant yn dweud pam wrthy ch.

### HAWL 7: I WNEUD DATGANIAD PERSONOL DIODDEFWR

- 7.1 Mae gennych **Hawl** i wneud **Datganiad Personol Dioddefwr** i esbonio yn eich geiriau eich hun sut y mae'r drosedd wedi effeithio arnoch, boed yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Mae hyn yn wahanol i ddatganiad tyst am yr hyn a ddigwyddodd ar y pryd, megis beth a welsoch neu a glywsoch.
- 7.2 Os ydych yn **berthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth**, mae gennych **Hawl** i wneud datganiad personol p'un a ydych wedi gwneud datganiad tyst neu beidio.
- 7.3 Mae'r **Datganiad Personol Dioddefwr** yn cael ei ddefnyddio gan y llys wrth benderfynu ba ddedfryd y dylai'r diffynnydd ei chael. Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, neu'n cael ei ddyfarnu'n euog, a'ch bod wedi gofyn am i'ch datganiad gael ei ddarllen yn uchel (neu ei chwarae) yn y llys, bydd y llys yn penderfynu pa rannau o'ch datganiad personol a ddylai gael ei ddarllen yn uchel (neu ei chwarae), a phwy ddylai ei ddarllen. Bydd y llys bob amser yn cymryd eich barn i ystyriaeth wrth wneud eu penderfyniad ac yn ei ddilyn, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.
- 7.4 Os nad ydych eisiau darllen eich **Datganiad Personol Dioddefwr** yn uchel eich hun neu gael rhywun i'w ddarllen yn uchel ar eich rhan, nid oes rhaid i chi ddewis yr opsiwn hwn. Os ar y dechrau eich bod yn dewis cael darllen eich datganiad personol yn uchel ond yn penderfynu wedyn nad ydych eisiau hyn, gallwch newid eich meddwl. Ystyrir eich datganiad personol gan y llys yr un fath, p'un a yw'n cael ei ddarllen (neu ei chwarae) yn y llys ai peidio.
- 7.5 Mae gennych **Hawl** i gael gwybodaeth am y broses **Datganiad Personol Dioddefwr** gan yr **heddlu** pan ydych yn adrodd wrthynt am y drosedd i'ch helpu i benderfynu a ydych eisiau gwneud un. Os byddwch yn gwneud datganiad personol, gallwch ofyn am gopi gan yr **heddlu** a chewch gyfle i wneud datganiad personol ychwanegol i adlewyrchu effaith newidiol y drosedd.

<sup>23</sup> Mae'r achosion lle mae teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth â hawl i gael cyfarfod â'r CPS yn cynnwys: llofruddiaeth, dynladdiad, dynladdiad corfforaethol, dynladdiad teuluol, achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus, achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiotal tra'n anghymwys oherwydd diod neu gyffuriau, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal neu trwy yrru'n anystyriol, achosi marwolaeth drwy yrru heb drwydded, wedi eu gwahardd, neu heb yswiriant a chymryd cerbyd lle'r achosir marwolaeth.

<sup>24</sup> Achosion penodol lle mae dioddefwyr â'r hawl i gael cyfarfod â'r CPS yw: cam-drin plant; troseddau rhywiol; troseddau a waethygir oherwydd hil neu grefydd; troseddau gydag elfen homoffobig neu drawsffobig; troseddau a waethygir gan elyniaeth ar sail anabled; ac achosion a ysgogir gan elyniaeth ar sail oedran.

7.6 Yn ychwanegol at hawl y **cyswllt a enwir ar gyfer busnes** i wneud **Datganiad Personol Dioddefwr**, gall busnesau o bob maint wneud **Datganiad Effaith ar Fusnes**. Mae hyn yn debyg i **Ddatganiad Personol Dioddefwr** a bydd yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd yn y llys, ond mae'n caniatáu i'r busnes egluro sut y mae trosedd wedi effeithio ar y busnes, megis colled uniongyrchol ariannol, ac effeithiau ehangach, e.e. amhariad gweithredol neu niwed i enw da.

7.7 Mae gan y **cyswllt a enwir yr Hawl** i gael gwybodaeth am y broses **Datganiad Effaith ar Fusnes** gan yr **heddlu** pan yn adrodd wrthynt am y drosedd i helpu'r **cyswllt a enwir** i benderfynu p'un a yw'r busnes yn dymuno gwneud un ai peidio.

7.8 Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, neu'n cael ei ddyfarnu'n euog, byddwch yn cael gwybod sut mae eich **Datganiad Dioddefwr Personol** neu **Ddatganiad Effaith ar Fusnes** wedi cael ei ddefnyddio yn y llys pan fydd yr **Uned Gofal Tystion** yn cysylltu â chi i egluro'r ddedfryd (gweler **Hawl 9**).

7.9 Ceir gwybodaeth bellach ynghylch y broses **Datganiad Personol Dioddefwr** a'r **Datganiad Effaith ar Fusnes** gan yr **heddlu** a **Gov.uk**

#### **Pryd y gallaf wneud Datganiad Personol Dioddefwr?**

Gallwch wneud **Datganiad Personol Dioddefwr** ar unrhyw adeg cyn dedfrydu'r troseddwr; fodd bynnag, efallai na fyddwch yn cael cyfle i wneud datganiad personol unwaith y bydd y gwrandawriad llys wedi dechrau, ac yn enwedig os yw'r diffynnydd yn pledio'n euog.

I lawer o ddiodefwyr, yr amser gorau i wneud **Datganiad Personol Dioddefwr** yw pan fyddant yn cael gwybod bod y sawl sydd dan amheuaeth wedi ei gyhuddo ac efallai y bydd effaith lawn y drosedd yn gliriach. Gall yr heddlu ddal i ofyn am fanylion yr effaith gychwynnol wrth gynnal eich asesiad anghenion, neu gymryd eich datganiad tyst.

#### **A yw'n bosibl i mi newid fy meddwl neu ddiweddarau fy Natganiad Personol Dioddefwr?**

Unwaith y byddwch wedi llofnodi eich **Datganiad Personol Dioddefwr**, ni allwch ei dynnu'n ôl na'i newid. Fodd bynnag, os ydych yn cofio rhywbeth pwysig, neu eich bod yn teimlo fod effaith y drosedd arnoch chi wedi newid, gallwch wneud un arall.

#### **A fydd y diffynnydd yn gallu gweld fy Natganiad Personol Dioddefwr?**

Bydd. Os yw'r achos yn cyrraedd llys, bydd y diffynnydd fel arfer yn cael caniatâd i ddarllen eich datganiad. Fel gyda thystiolaeth arall yn yr achos, os

yw'r llys yn cytuno ei fod yn berthnasol i'r achos, gall yr amddiffyniad ofyn cwestiynau am gynnwys eich datganiad personol. Os yw eich datganiad personol yn cael ei ddarllen yn uchel yn y llys, **gall** yr hyn a ddywedir gael ei adrodd yn y cyfryngau.

#### **Cwestiynau pellach neu gymorth i gofnodi neu recordio eich Datganiad Personol Dioddefwr**

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â gwneud **Datganiad Personol Dioddefwr**, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio neu beth i'w gynnwys, gallwch siarad gyda'r **heddlu**, yr **Uned Gofal Tystion** neu'r **gwasanaeth cymorth i ddiodefwyr**. Gallant hefyd eich helpu i recordio eich datganiad personol.

#### **HAWL 8: I DDERBYN GWYBODAETH AM Y TREIAL, PROSES Y TREIAL A'CH RÔL FEL TYST**

8.1 Os bydd yr achos yn mynd i'r llys, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr **Uned Gofal Tystion** o fewn **5** diwrnod gwaith iddynt dderbyn y wybodaeth gan y llys (**estynedig** - o fewn **1** diwrnod gwaith):

- amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriad (o fewn **1** diwrnod gwaith i'r holl ddiodefwyr);
- canlyniad unrhyw wrandawriad mechnïaeth (ac amodau mechnïaeth perthnasol, unrhyw newidiadau perthnasol i'r amodau mechnïaeth hyn a'r rhesymau dros y newidiadau hynny);
- os oes gwarant arestio wedi cael ei chyhoeddi ar gyfer y sawl sydd dan amheuaeth a chanlyniad gwrandawriad os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei ailarestio; a
- chanlyniad unrhyw wrandawriad os yw'r sawl sydd dan amheuaeth wedi cael ei ailarestio.

8.2 Os bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn pledio'n ddieuog a'i bod yn ofynnol i chi fynychu'r llys, mae gennych **Hawl** i:

- gael gwybod gan yr **Uned Gofal Tystion** os oes gofyn i chi roi tystiolaeth o fewn **1** diwrnod gwaith iddynt dderbyn y wybodaeth gan y **CPS**;
- cael asesu eich anghenion a chael cynnig atgyfeiriad i'r **Gwasanaeth Tystion** gan yr **Uned Gofal Tystion** (gweler **Hawl 4**); a
- chael gwybod am ganlyniad unrhyw gais am fesurau arbennig (gweler **Hawl 4**).

8.3 Os oes gofyn i chi roi tystiolaeth, byddwch yn gallu atgoffa'ch hun drwy ddarllen eich datganiad tyst. Lle bo'n bosibl, bydd yr erlynydd yn cwrdd â chi cyn i chi fynd i'r llys i esbonio beth fydd yn digwydd ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

8.4 Os ydych yn **berthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth**, mae gennych **Hawl** i ofyn i'ch **Swyddog Cyswllt Teulu** neu **Uned Gofal Tystion** am gael ymweld â'r llys cyn dyddiad y treial er mwyn

ymgyfarwyddo â'r adeilad, p'un a oes angen i chi roi tystiolaeth neu beidio.

- 8.5 Os ydych yn **berthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth**, mae gennych hefyd **Hawl** i gael cynnig cyfarfod gyda'r **CPS** neu'r adfocad a fydd yn cyflwyno'r achos yn y llys. Bydd y cyfarfod hwn fel arfer yn cael ei gynnal yn union cyn y treial, ac mae'n gyfle i chi gael eich cyflwyno iddynt a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.
- 8.6 Wrth fynychu llys, lle y bo'n bosibl, byddwch yn gallu mynd i mewn drwy fynedfa wahanol i'r diffynnydd ac aros mewn ardal aros ar wahân. Ar hyn o bryd nid oes gan rai adeiladau llysoedd fynedfeydd ar wahân i ddiodefwyr a gwneir trefniadau i sicrhau nad oes rhaid i chi weld y diffynnydd wrth gyrraedd.
- 8.7 Yn ystod y treial, weithiau mae'n bosibl y bydd rhaid i chi aros i roi tystiolaeth; bydd **staff y llys** yn rhoi pwynt cyswllt yn y llys i chi, er mwyn i chi gael eich diweddarau am broses y treial a byddant hwy neu **erlynydd y CPS neu'r adfocad** yn dweud wrthyfch pa mor hir mae'n debygol y bydd rhaid i chi ddisgwyl.
- 8.8 Weithiau, mae'n bosibl y bydd angen i chi ddod yn ôl i'r llys ar ddiwrnod arall; os yw hyn yn digwydd, bydd **staff y llys** neu **erlynydd y CPS neu'r adfocad** yn dweud pam wrthyfch.

### Help wrth fynychu'r llys

Gall gorfod mynychu llys fod yn brofiad brawychus i unrhyw ddiodefwyr. Fodd bynnag, bydd yr **Uned Gofal Tystion** yn cysylltu â chi cyn y treial.

Yn ogystal â darparu'r hawliau a restrir yn 8.1 a 8.2, gallant roi arweiniad a chynghor ymarferol i'ch helpu chi. Mae hyn yn cynnwys:

- cael gwybod beth i'w ddisgwyl yn y llys ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am broses y llys;
- os yw'r diodefwyr dan 18 oed, cael gwybodaeth i dystion ifanc;
- cael cynnig cymorth gyda chyfarwyddiadau teithio i'r llys a chynllunio a/neu drefnu teithio i'r llys neu lety;
- cael cynnig help i drefnu gofal plant neu gymorth ychwanegol i'ch galluogi i fynychu llys;
- cael gwybodaeth am hawlio treuliau a lwfansau tystion;
- cael cynnig atgyfeiriad at wasanaethau cymorth i ddiodefwyr cyn, yn ystod neu ar ôl i chi fynychu'r llys; ac

- ateb unrhyw gwestiynau am y ddedfryd neu eich cyfeirio ymlaen at y **CPS** os nad ydynt yn gallu ateb eich cwestiynau.

- 9.1 Mae gennych **Hawl** i gael gwybod beth yw canlyniad yr achos, gan gynnwys, lle bo ar gael, grynodedd byr o'r rhesymau dros y penderfyniad<sup>25</sup>, gan yr **Uned Gofal Tystion** o fewn 1 diwrnod gwaith iddynt gael gwybod gan y llys.
- 9.2 Os ceir y diffynnydd yn euog, mae gennych **Hawl** i gael gwybod pa ddedfryd a gawsant, gan gynnwys esboniad byr am ystyr ac effaith y ddedfryd; os gwnaethoch **Ddatganiad Personol Dioddefwr**, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y gallwch gael gwybodaeth bellach gan y **CPS** trwy'r **Uned Gofal Tystion**, o fewn 1 diwrnod gwaith iddynt gael gwybod gan y llys.
- 9.3 Os ydych yn **berthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth**, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod gyda'r **CPS**:
- yn dilyn euogfarn, ond cyn gwrandawriad dedfrydu'r diffynnydd, i gadarnhau bod **Datganiad Personol Dioddefwr** wedi'i wneud neu i gadarnhau ei fod yn gyfoes. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd fel arfer yn y llys;
  - yn dilyn y gwrandawriad dedfryd i esbonio'r ddedfryd a roddwyd. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd fel arfer yn y llys;
  - mewn achosion sy'n arwain at ryddfarn neu euogfarn ar gyhuddiad llai difrifol. Gwneir y cynnig o gyfarfod ychydig wythnosau ar ôl i'r achos ddod i ben oni bai bod yr **heddlu** yn penderfynu bod hyn yn amhriodol. Bydd amseriad gwirioneddol y cyfarfod yn dibynnu ar ddymuniadau'r teulu felly cysylltir â chi i drafod pryd y dylai'r cyfarfod gael ei gynnal; ac
  - mewn achos o lofruddiaeth lle canfyddir pob diffynnydd yn ddiueog o'r holl gyhuddiadau, bydd yr **heddlu** a'r **CPS** yn dilyn y broses a amlinellir yn y **Safonau Cymorth Cenedlaethol** i deuluoedd mewn profedigaeth. Gellir cael y **Safonau Cymorth Cenedlaethol** ar wefan y **CPS** [www.cps.gov.uk](http://www.cps.gov.uk) a bydd yr **heddlu** yn darparu copi i deuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth fel rhan o becyn profedigaeth yr heddlu.

### Os ydych yn anfodlon â'r ddedfryd a roddwyd i'r troseddwr

- 9.4 Ar gyfer rhai achosion (ond nid pob un) a ddedfrydir yn llys y Goron, mae'n bosibl gofyn<sup>26</sup>i'r **Twrnai**

<sup>25</sup> Ni fydd yr Uned Gofal Tystion yn gallu rhoi esboniad os yw'r troseddwr wedi ei gael yn ddiueog gan reithgor, oherwydd nad oes rhaid i'r rheithgor ddarparu rhesymau dros eu penderfyniad.

<sup>26</sup> Gall y CPS hefyd gysylltu â'r Twrnai Cyffredinol os oes ganddynt bryderon am y ddedfryd.

**Cyffredinol**<sup>27</sup> gyfeirio'r ddedfryd i'r **Llys Apêl** i'w ailystyried. Dim ond ar y sail bod y ddedfryd nid yn unig yn drugarog ond yn 'rhy drugarog'<sup>28</sup>, bod gwall dybryd ac felly ei bod yn llawer rhy isel y gellir gwneud hyn. Ni ellir cyfeirio'r ddedfryd am y rheswm y gallai fod wedi bod yn ddedfryd hirach yn unig.

9.5 Os yw'r **Twrnai Cyffredinol** o'r farn bod y ddedfryd yn cwrdd â'r safon o fod yn 'rhy drugarog', caiff yr achos ei gyfeirio at y **Llys Apêl**. Mae'n rhaid i'r **Twrnai Cyffredinol** ystyried y mater cyn gynted â phosibl ar ôl y ddedfryd a heb fod yn hwyrach na'r 28<sup>ain</sup> diwrnod calendr ar ôl y ddedfryd a roddwyd. Os yw'r **Llys Apêl** yn cytuno, **gall** gynyddu'r ddedfryd.

9.6 Bydd yr **Uned Gofal Tystion** yn rhoi gwybod i chi am y cynllun, gan gynnwys sut i wneud atgyfeiriad, pan gewch wybod beth yw'r ddedfryd yn yr achos.

#### Os yw'r troseddwr yn apelio

9.7 Weithiau bydd y troseddwr yn gofyn i'r llys edrych ar yr achos neu'r ddedfryd eto. Gelwir hyn yn apêl. Mae'r hyn a fydd yn digwydd nesaf yn dibynnu ar ble y bydd yr apêl yn cael ei chynnal.

#### Os gwneir cais i Lys y Goron i apelio'n erbyn euogfarn neu ddedfryd yn y Llys Ynadon.

9.8 Os yw'r troseddwr yn apelio i Lys y Goron, mae gennych yr hawl i gael gwybod gan yr **Uned Gofal Tystion** o fewn **1** diwrnod gwaith iddynt gael gwybod gan y llys:

- bod hysbysiad apêl wedi ei wneud;
- dyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawriad; a
- chanlyniad yr apêl, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r ddedfryd wreiddiol.

9.9 Os ydych yn dymuno mynychu'r apêl, mae gennych **Hawl i staff y llys** drefnu i chi:

- aros ac eistedd yn y llys mewn ardal ar wahân i'r troseddwr a'i deulu a ffrindiau, lle bynnag y bo'n bosibl;
- gael pwynt cyswllt yn **Llys y Goron**; a
- derbyn gwybodaeth am wasanaethau cymorth i ddiodefwyr lle bo'n briodol ac ar gael.

#### Os gwneir cais i apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl, neu y gwneir cais neu apêl i Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig mewn achos troseddol ar bwynt cyfreithiol.

9.11 Os yw'r troseddwr yn apelio i'r **Llys Apêl** neu i **Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig**, mae gennych **Hawl** i gael gwybod gan yr **Uned Gofal Tystion** o fewn **5** diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael gwybod gan y llys (**estynedig** - o fewn **1** diwrnod gwaith):

- os yw'r troseddwr wedi cael caniatâd i apelio yn erbyn yr euogfarn, y ddedfryd neu bwynt cyfreithiol;
- dyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawriad, ac unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon (o fewn **1** diwrnod gwaith ar gyfer yr holl ddiodefwyr);
- os yw'r troseddwr i gael ei ryddhau ar fechnïaeth cyn apêl neu os yw'r amodau mechnïaeth wedi cael eu newid (o fewn **1** diwrnod gwaith ar gyfer yr holl ddiodefwyr);
- enw cyswllt ar gyfer y **Swyddfa Apeliadau Troseddol** neu **staff Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig**;
- canlyniad yr apêl, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r ddedfryd wreiddiol, a
- sut i ofyn am gopi gan y **Swyddfa Apeliadau Troseddol** neu **staff Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig** o ddyfarniad y llys yn yr achos unwaith y bydd wedi cael ei gyhoeddi.

9.12 Os ydych yn dymuno mynychu'r apêl, mae gennych **Hawl i staff y llys** neu **staff Goruchaf Lys y DU** drefnu:

- i chi aros ac eistedd yn y llys mewn ardal ar wahân i'r troseddwr a'i deulu a ffrindiau, lle bynnag y bo'n bosibl; ac
- i wneud trefniadau arbennig ar eich rhan os yw'r troseddwr yn bresennol ac nad ydych eisïau eistedd yn ystafell y llys. Fodd bynnag, mae'n anghyffredin i'r troseddwr fynychu gwrandawriadau yn y **Goruchaf Lys**.

9.13 Yn dilyn penderfyniad i roi caniatâd i droseddwr apelio, os ydych yn **berthynas agos sydd wedi dioddef profedigaeth**, mae gennych **Hawl** i gael cynnig cyfarfod gyda'r **CPS** er mwyn iddynt esbonio natur yr apêl a'r prosesau llys.

9.14 Wrth benderfynu ar apêl yn erbyn dedfryd, bydd y llys bob amser yn cymryd i ystyriaeth unrhyw **Ddatganiad Personol Dioddefwr** a ystyriwyd gan y llys dedfrydu.

9.15 Nid oes angen fel arfer darparu datganiad personol pellach i'r **Llys Apêl**. Fodd bynnag, os oes gwybodaeth y dylai'r llys wybod am yr effaith barhaus y mae'r drosedd wedi ei chael arnoch, gellir anfon **Datganiad Personol Dioddefwr** newydd neu bellach i'r llys drwy'r **heddlu** neu'r **CPS**.

<sup>27</sup> Y Twrnai Cyffredinol yw'r prif gynghorydd cyfreithiol i'r Goron ac mae ganddo/ganddi nifer o swyddogaethau lles y cyhoedd annibynnol, yn ogystal â goruchwyliaeth dros adrannau Swyddogion y Gyfraith.

<sup>28</sup> Mae dedfryd yn 'rhy drugarog' os yw'n disgyn y tu allan i'r amrediad arferol o ddedfrydau y gallai'r barnwr yn rhesymol fod wedi eu hystyried yn briodol.

## Comisiwn Adolygu Achosion Troseiddol

- 9.14 Gall y troseiddwr ofyn i'r **Comisiwn Adolygu Achosion Troseiddol** adolygu eu heuogfarnau a/neu ddedfryd os oes rhywfaint o wybodaeth newydd neu ddadl newydd a allai olygu fod yr euogfarn yn annïogel neu'r ddedfryd yn rhy hir. Mae'r **Comisiwn** yn ymchwilio i gamweddau honedig cyfiawnder troseiddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- 9.15 Wrth adolygu achos, bydd y **Comisiwn** yn asesu'r effaith bosibl arnoch chi ac yn penderfynu a ddylid eich hysbysu.
- 9.16 Ni fydd y **Comisiwn** fel arfer yn ceisio cysylltu â chi dim ond oherwydd eu bod wedi derbyn cais. Mae hyn oherwydd na fydd y rhan fwyaf o adolygiadau yn arwain at apêl ac nid oes angen eich hysbysu bod y troseiddwr wedi gwneud cais. Fodd bynnag, bydd y **Comisiwn** yn rhoi gwybod i chi os ydynt yn credu bod siawns resymol y gallwch ganfod eu bod yn edrych ar achos drwy'r cyfryngau neu drwy ffynhonnell arall.
- 9.17 Os yw'r **Comisiwn** yn penderfynu nad yw'n briodol cysylltu â chi yn ystod yr adolygiad, ond wedyn yn penderfynu atgyfeirio'r euogfarn neu ddedfryd i'r llysoedd, bydd y **Comisiwn** yn ceisio cysylltu â chi cyn i'r achos gael ei atgyfeirio i apêl.

## HAWL 10: I DDERBYN TREULIAU A CHAEL EICH EIDDO YN ÔL

- 10.1 Os ydych yn mynychu'r llys i roi tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i hawlio treuliau penodol, er enghraifft ar gyfer teithio, gofal plant, colli enillion a lluniaeth a phrydau, oddi wrth y **CPS**<sup>29</sup>. Bydd y **CPS** yn talu unrhyw dreuliau y maent wedi penderfynu sy'n ddyledus i chi o fewn **10** diwrnod gwaith o dderbyn ffurflen hawlio wedi'i llenwi yn gywir.
- 10.2 Os y cymerodd yr **heddlu** unrhyw eiddo oddi arnoch fel tystiolaeth, mae gennych **Hawl** i'w gael yn ôl cyn gynted ag nad oes ei angen mwyach.

## HAWL 11: I DDERBYN GWYBODAETH AM Y TROSEDDWR YN DILYN EUOGFARN

### Cynllun Cyswllt Dioddefwyr

- 11.1 Os ydych yn ddioddefwr neu'n berthynas teuluol sydd wedi dioddef profedigaeth a bod y troseiddwr yn euog o drosedd dreisgar neu rywiol benodol<sup>30</sup>, a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy yn y carchar (neu ei

gadw mewn ysbyty i gael triniaeth dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gyda neu heb orchymyn cyfyngiad <sup>31</sup>), mae gennych **Hawl** i gael eich atgyfeirio yn awtomatig o fewn **20** diwrnod gwaith i **Gynllun Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** a chael **Swyddog Cyswllt Dioddefwyr** wedi'i neilltuo i chi. Gallwch optio allan ac optio'n ôl i'r **Cynllun Cyswllt Dioddefwyr** ar unrhyw adeg tra bo'r troseiddwr yn treulio ei ddedfryd/gorchymyn ysbyty a thra bod unrhyw amodau trwydded dilynol yn fyw.

- 11.2 Bydd y **Swyddog Cyswllt Dioddefwyr** yn dweud wrthyich:

- beth mae dedfryd y llys yn olygu o ran eu cadw yn y carchar neu ysbyty, os oes unrhyw newidiadau i'w dedfryd, a phan fyddant yn cael eu
- trosglwyddo i amodau agored neu eu hystyried ar gyfer eu rhyddhau neu ryddhad amodol;
- sut i wneud **Datganiad Personol Dioddefwr** os yw achos troseiddwr i fod i gael ei ystyried gan adolygiad Bwrdd Parôl;
- sut i wneud cais i ddarllen eich **Datganiad Personol Dioddefwr** i'r **Bwrdd Parôl**, yn yr achosion hynny pan fo'r **Bwrdd Parôl** yn cynnal gwrandawriad llafar;
- sut i wneud cais am amodau trwydded/rhyddhau i leihau'r siawns y byddwch yn dod ar draws y troseiddwr yn y gymuned, neu iddynt geisio cysylltu â chi;
- am unrhyw amodau trwydded/rhyddhau sy'n ymwneud â chi a'r dyddiad y byddant yn dod i ben; a
- sut i ofyn am grynoded o benderfyniad y **Bwrdd Parôl** a sut i geisio herio'r penderfyniad os yw'r **Bwrdd Parôl** yn penderfynu bod y troseiddwr yn ddiogel i'w ryddhau (gweler **11.8-11.9** isod).

- 11.3 Yn ychwanegol at y troseiddau statudol lle y cynigir y **Cynllun Cyswllt Dioddefwyr**, bydd y **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** hefyd yn atgyfeirio dioddefwyr i'r cynllun lle mae'r troseiddwr wedi'i ddedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar (neu ei gadw mewn ysbyty i gael triniaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gyda neu heb orchymyn cyfyngiad) am:

- Achos Marwolaeth trwy Yrru'n Ddiotal neu'n Anystyriol (Deddf Traffig Ffyrdd 1988);
- Achos Niwed Difrifol trwy Yrru'n Beryglus (Deddf Traffig Ffyrdd 1988); neu

<sup>29</sup> Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau eraill sy'n gyfrifol am erlyn troseidd fod â rheolau y mae'n bosibl i ddioddefwyr eu defnyddio i gael ad-daliad o gostau yr aethpwyd iddynt trwy fynychu llys i roi tystiolaeth.

<sup>30</sup> Fel y diffinnir yn adran 45(2) o Ddeddf Trais Domestig, Troseiddau a Dioddefwyr 2004.

<sup>31</sup> Gosodir cyfyngiadau ar glaf os yw'r llys o'r farn bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu pobl eraill rhag niwed difrifol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cymryd rhan mewn rheoli "Cleifion dan

gyfyngiadau". Golyga hyn y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniadau am adsefydlu'r troseiddwr. Mae "Cleifion Heb Gyfyngiadau" yn cael eu rheoli gan glinigwyr, a rheolwyr yr ysbyty.



- Ymddygiad rheoli neu gymhellol mewn perthynas agos neu deuluol (Deddf Troseddau Difrifol 2015).

### Dioddefwyr troseddwr sydd o dan 18 oed

- 11.4 Os yw'r troseddwr yn eich achos o dan 18 oed ac nad ydych yn gymwys ar gyfer y **Cynllun Cyswllt Dioddefwyr**, gall y **Tîm Troseddau Ieuenctid** gysylltu â chi yn uniongyrchol. Mae hyn yn digwydd mewn achosion lle mae troseddwr ifanc yn cael ei ddedfrydu i lai na **12** mis yn y ddalfa, **12** mis neu fwy am drosedd nad yw'n rhywiol neu sy'n ddi-drais, neu orchymyn cymunedol. Mae gorchymyn cymunedol yn gosod amodau ar droseddwr sy'n treulio ei ddedfryd yn y gymuned yn hytrach nag yn y carchar.
- 11.5 Gall y **Tîm Troseddau Ieuenctid** ofyn am eich barn cyn dedfrydu er mwyn archwilio a ydych eisiau cymryd rhan mewn unrhyw fentrau **Cyfiawnder Adferol**, lle bo hynny'n briodol ac ar gael.
- 11.6 Mae gennych **Hawl** i dderbyn y wybodaeth ganlynol gan y **Tîm Troseddau Ieuenctid**:
- gwybodaeth am gynnydd achos y troseddwr ar gais; a
  - gwybodaeth am wasanaethau cymorth i ddiodefwyr priodol os byddwch yn gofyn am gymorth ychwanegol.

### Y Bwrdd Parôl

- 11.7 Mae'n rhaid i'r **Bwrdd Parôl**:
- ystyried yr holl sylwadau a wnaed gan ddiodefwyr am amodau trwydded;
  - lle mae diodefwyr wedi gofyn am amod trwydded sydd heb ei gynnwys, roi esboniad am yr hyn na chynhwyswyd;
  - ddarllen y **Datganiad Personol Dioddefwr** os cyflwynwyd un;
  - ystyried ceisiadau gan y diodefwyr os ydynt eisiau mynychu'r gwrandawriad llafar a chydsynio i gais gan y diodefwyr i fod yn bresennol yn bersonol ar gyfer darllen y datganiad oni bai fod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny.

### Gofyn am i benderfyniad parôl gael ei adolygu (Mecanwaith Ailystyried)

- 11.8 Mae'r **Bwrdd Parôl** yn ystyried troseddwr penodol ar gyfer parôl (rhyddhau ar drwydded) yn seiliedig ar eu risg o niwed i'r cyhoedd.
- 11.9 Os yw'r **Bwrdd Parôl** yn penderfynu ei bod yn ddiogel i ryddhau troseddwr, mae'r penderfyniad yn un dros dro am **21** diwrnod calendr. Yn ystod yr amser hwn, gallwch ofyn i'r **Ysgrifennydd Gwladol**

herio'r penderfyniad ar eich rhan os ydych yn credu naill ai:

- na ddilynwyd y broses gywir yn adolygiad y troseddwr ar gyfer parôl - er enghraifft, nad ystyriwyd tystiolaeth bwysig; neu
- fod y penderfyniad yn afresymegol neu'n afresymol - ni ellir cyfiawnhau'r penderfyniad ar sail y dystiolaeth o risg a ystyriwyd.

### Proses Adolygiad Gofynion Hysbysu Troseddwr Rhyw

- 11.10 Mae troseddwr rhyw cofrestredig yn ddarostyngedig i "ofynion hysbysu". Golyga hyn bod rhaid iddynt ddweud wrth yr **heddlu** am rai o'u manylion personol. Mae gofynion hysbysu yn ganlyniad awtomatig euogfarn neu rybudd am drosedd Atodlen 3 o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae'r wybodaeth sydd angen i droseddwr ei rhoi i'r heddlu a pha mor hir y mae angen iddynt wneud hyn yn dibynnu ar y ddedfryd a roddwyd iddynt.
- 11.11 Gall troseddwr sy'n destun gofynion hysbysu am oes wneud cais i gael adolygu hyn ar ôl cyfnod penodol yn dilyn eu hysbysiad cyntaf, sydd fel arfer yn digwydd wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Y cyfnod penodol yw **15** mlynedd i oedolion ac **8** mlynedd i ieuenctid. Os yw'r troseddwr yn gwneud cais o'r fath, bydd yr heddlu wedyn yn cynnal adolygiad, gan gynnwys asesiad risg i benderfynu p'un a all gofynion hysbysu'r troseddwr gael eu terfynu. Bydd troseddwr rhyw a asesir fel rhai sy'n parhau'n risg yn aros yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu a byddant yn gwneud hynny am oes os oes angen.
- 11.12 Os ydych yn ddiodefwyr troseddwr sy'n gwneud cais o'r fath, mae gennych **Hawl** i gael cysylltiad gan yr heddlu i roi eich barn ar y cais fel rhan o'u hadolygiad. Bydd eich **Swyddog Cyswllt Dioddefwyr** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y broses hon.

### Troseddwr sy'n Wladolion Tramor

- 11.13 Os ydych wedi bod yn ddiodefwyr trosedd a gyflawnwyd gan wladolyn tramor a bod y troseddwr:
- wedi cael dedfryd o garchar o **12** mis neu fwy, neu orchymyn ysbyty, am drosedd yn eich erbyn; neu
  - a argymhellwyd gan y llys i gael ei alltudio am drosedd yn eich erbyn; neu
  - ei ddedfrydu i gyfnod yn y carchar am drosedd dreisgar neu rywiol.

Mae gennych **Hawl** i dderbyn gwybodaeth am alltudiaeth y troseddwr. Gallwch ddewis peidio â derbyn y wybodaeth hon. Mae'n rhaid i'r

**Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (Swyddog Cyswllt Dioddefwyr a Rheolwyr Troseddwyr)** gymryd pob cam rhesymol i weithio gyda'r awdurdodau mewnfudo er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod gwybodaeth am statws mewnfudo y carcharor ac unrhyw wybodaeth alltudio yn cael ei throsglwyddo i ddiodeffwyr.

- 11.14 Os ydych chi wedi dioddef trosedd fel a nodir yn 11.13 uchod, bydd eich **Swyddog Cyswllt Dioddefwyr** a bennwyd gan y **Cynllun Cyswllt Dioddefwyr** (gweler 11.1 uchod) yn gallu cael y wybodaeth ddiweddaraf gan y **Swyddfa Gartref** ar eich rhan.
- 11.15 Os nad ydych yn gymwys ar gyfer y **Cynllun Cyswllt Dioddefwyr** neu wedi optio allan o'r cynllun, ond yn bodloni'r meini prawf (gweler 11.13 uchod), mae gennych yr hawl i dderbyn diweddiadau ynglŷn ag achos mewnfudo y troseddwr sy'n wladolyn tramor yn uniongyrchol gan **Dîm Cymorth i Ddiodeffwyr y Swyddfa Gartref**.
- 11.16 Gall **Tîm Cymorth i Ddiodeffwyr y Swyddfa Gartref** ddweud wrthyhch:
- p'un a yw'r **Swyddfa Gartref** yn bwriadu cymryd camau alltudio yn erbyn y troseddwr;
  - canlyniad terfynol unrhyw apêl yn erbyn alltudio;
  - pryd fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau o ddalfa mewnfudwyr;
  - pan fydd y troseddwr wedi cael ei alltudio; neu
  - os nad yw'r troseddwr yn cael ei alltudio ac os yn bosibl, y rhesymau pam.

#### **Adolygiadau Trosedd Ddifrifol Bellach**

- 11.17 Os yw'r troseddwr yn cyflawni **Trosedd Ddifrifol Bellach**<sup>32</sup> tra'i fod dan oruchwyliaeth statudol gan ddarparwr gwasanaethau prawf, neu yn fuan ar ôl i'r oruchwyliaeth hon ddod i ben, bydd y darparwr gwasanaethau prawf yn cynnal **Adolygiad Trosedd Ddifrifol Bellach** i ymchwilio i sut y rheolwyd yr achos ac a oes yna unrhyw welliannau y mae angen eu gwneud i reoli achosion yn y dyfodol.
- 11.18 Os yw hyn yn digwydd, mae gennych **Hawl** i gael hysbysiad gan yr **Uned Gofal Tystion** i ofyn p'un a hoffech chi dderbyn copi o'r adroddiad **Trosedd Ddifrifol Bellach** yn dilyn euogfarn y troseddwr a chael cynnig cyfarfod gydag uwch reolwr y darparwr gwasanaethau prawf i siarad am ganfyddiadau'r adroddiad a gofyn unrhyw gwestiynau. Yn y rhan fwyaf o achosion difrifol, bydd darparwyr gwasanaethau prawf yn cynnig

rhannu canfyddiadau'r adolygiad **Trosedd Ddifrifol Bellach** â'r diodeffwr neu eu teuluoedd yn dilyn euogfarn y troseddwr.

#### **HAWL 12: I WNEUD CWYN AM HAWLIAU SYDD HEB EU DIWALLU**

- 12.1 Os ydych yn credu nad ydych wedi derbyn unrhyw un o'ch **Hawliau** o dan y Cod hwn, gallwch wneud cwyn. Yn y lle cyntaf, ac os ydych yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny, dylech drafod eich cwyn gyda'r person yr ydych wedi bod yn delio ag ef yn y **darparwr gwasanaeth** dan sylw.
- 12.2 Os ydych yn dal yn anhapus, neu os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn trafod y gŵyn gyda'r person yr ydych wedi bod yn delio ag ef, gallwch wneud cwyn drwy eu trefn gwyno fewnol<sup>33</sup>. Bydd y **darparwr gwasanaeth perthnasol** yn rhoi gwybodaeth i chi am eu gweithdrefn gwyno, ac yn ymateb o fewn yr amserlenni a nodwyd yn eu trefn.
- 12.3 Os ydych yn anfon eich cwyn i'r darparwr gwasanaeth anghywir neu fod angen i fwy nag un ei thrin, bydd y **darparwr gwasanaeth** yn rhoi gwybod i chi.
- 12.4 Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl i chi orffen gweithdrefn gwyno'r **darparwr gwasanaeth**, neu eu bod yn cymryd gormod o amser i ddod yn ôl atoch, gallwch gysylltu â'r **Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd**. Bydd yr **Ombwdsmon** yn ystyried unrhyw gwynion a atgyfeiriwyd atynt ac yn cynnal ymchwiliad annibynnol lle bo hynny'n briodol.
- 12.4 Gellir canfod gwybodaeth am wneud cwyn i'r Ombwdsmon ar eu gwefan ar: [www.ombudsman.org](http://www.ombudsman.org)

<sup>32</sup> Trosedd a restrir yn Atodiad C i Gyfarwyddyd Prawf 15/2014 'Gweithdrefnau hysbysu ac adolygu ar gyfer troseddau difrifol pellach' (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd). Ar hyn o bryd, y rhain yw pob trosedd dreisgar neu rywiol ddiffrifol sy'n denu uchafswm o 14 mlynedd o garchar neu ddedfryd amhenodol.

<sup>33</sup> Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gael proses gwynion glir, y gall diodeffwyr wneud cwyn drwyddi os nad yw eu hawliau dan y Cod hwn wedi cael eu bodloni.